Trechu Troseddu Mewn Ysgolion

Trechu Troseddu Mewn Ysgolion

Protocol i'r Heddlu'n Cefnogi Ysgolion gyda Digwyddiadau o Droseddu ac Anhrefn

Dogfen Gyfeirio ar Gyfer Athrawon

Gweithio mewn Partneriaeth
Canllawiau Ysgolion a Heddlu Cymru

Rhagair

Mae pedwar Heddlu Cymru wedi gweithio gydag ysgolion a'u cefnogi mewn amrywiaeth o ffyrdd ers llawer o flynyddoedd, yn y lle cyntaf trwy fynd i mewn i ystafelloedd dosbarth a siarad am bynciau fel diogelwch personol ac addysg am gyffuriau. Mae'r Pedwar Llu wedi cadarnhau ymhellach eu hymrwymiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn modd mwy dwys a phroffesiynol trwy "Raglen Gyswllt Graidd Ysgolion Cymru Gyfan" Felly mae ysgolion yn chwarae rôl bwysig wrth i'r heddlu gysylltu â phlant a phobl ifanc.

Mae profiad diweddar wedi dangos bod angen clir creu Polisi Heddlu penodol sy'n amlinellu'r drefn ar gyfer delio â digwyddiadau sy'n digwydd mewn ysgolion. Dylai'r polisi hwn roi ymateb parhaus gan swyddogion heddlu ar draws Cymru. Ni ddylai fod llawer o hyblygrwydd y tu allan i'r ddogfen hon ynglŷn â'r gwir ddyletswydd a roddir ar swyddogion heddlu ar ôl cael eu cynnwys mewn digwyddiad yn yr ysgol. Fodd bynnag mae gradd helaeth o hyblygrwydd a rhyddid gan y Pennaeth ynghylch cysylltu â'r Heddlu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n glir y terfynau y dylai swyddogion weithredu o'u mewn a hefyd gwna argymhellion i roi cymorth i ysgolion.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon ar ôl ystyried y cyngor cynhwysfawr a roddwyd i ysgolion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cefnogi'n llawn y cyngor a roddwyd mewn dogfennau fel 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc 2002', 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion','Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio' a 'Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion' a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nod y ddogfen hon yw gwella'r fath gyngor trwy roi canllawiau clir am yr hyn i'w ddisgwyl unwaith y mae'r heddlu wedi'u cynnwys mewn digwyddiadau yn yr ysgolion a sicrhau perthynas weithio gadarnhaol barhaus rhwng yr heddlu ac ysgolion, wedi'i seilio ar wybodaeth well, ymddiriedaeth a dealltwriaeth y naill i'r llall.

Bob amser buddiannau plant a phobl ifanc fydd flaenaf gan yr Heddlu a byddant yn gweithio law yn llaw â dymuniadau a pholisïau ysgolion pryd bynnag y bo modd.

Pan fydd penaethiaid yn cyfeirio at y ddogfen hon dylent hefyd gymryd ystyriaeth o unrhyw ganllawiau sy'n bodoli gyda'u Hawdurdod Lleol a neu eu Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau. Dylai penaethiaid hefyd ystyried unrhyw bolisïau a fabwysiadwyd gan eu cyrff llywodraethol. Cytunwyd a mabwysiadwyd y protocol hwn gan y pedwar Llu Heddlu Cymreig ac yn genedlaethol gan y Cyfarwyddwyr Addysg.

Cynnwys

NO.	TITLE	TUDALEN
1	Rolau a Chyfrifoldebau'r Heddlu	4
2	Ymateb yr Heddlu i Ddigwyddiadau mewn Ysgolion	6
3	Cofnodi ac Ymchwilio Ffurfiol i Droseddau yn ysgolion ▪ Cyffredinol ▪ Cwestiynu • Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau • Dulliau Adferol ▪ System Cyfiawnder Ieuenctid	8
4	Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau ▪ Yr Ymateb Tair Haen ▪ Casglu a Gweinyddu ▪ Ymchwilio Partneriaeth ar y cyd ▪ Difrifoldeb Trosedd	12
5	Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 • Chwilio neu Sgrinio Disgyblion am Arfau • Defnyddio Grym Rhesymol	16
6	Cyfrinachedd	18
	Atodiad A – digwyddiadau posibl lle mae angen gweithredu mewn ysgol	19
	Atodiad B – gweithdrefnau camddefnyddio sylweddau a argymhellir	22
	Atodiad C – enghreifftiau sy'n cynnwys cyfrinachedd	24

1. Rolau a Chyfrifoldebau Heddlu

Mewn cymunedau mae swyddogion heddlu sy'n ymgymryd â nifer o rolau i gynnig gwasanaeth plismona effeithiol ar gyfer ysgolion. Isod ceir rhestr o'r prif fathau o swyddogion mae ysgolion yn debyg o gael cysylltiad â nhw: -

Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCYion) - Dyma'r swyddogion sy'n ymrwymedig i gysylltu gyda, a chynnal gwersi mewn ysgolion. Dyma'r swyddog y bydd ysgolion yn cael y cysylltiad mwyaf ag ef. Eu prif rôl yw traddodi "Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan". Defnyddir y swyddogion hyn i sicrhau y cyflwynir rhaglen broffesiynol, unffurf strwythuredig i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Yn ogystal â chyflwyno gwersi, gofynnir i'r swyddogion hyn ymglymu'n llawn ym mywyd yr ysgolion o ddydd i ddydd a chynorthwyo â phroblemau sydd angen sylw neu gyngor yr heddlu. Bydd angen iddynt ddeall polisïau a gweithdrefnau ysgolion yn llawn ac ymdrechu i weithio o fewn eu cyfrifoldebau.

Mewn digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys, y SHCY hefyd ddylai fod y man cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor.

- **Timau Heddlu Cymdogaethau sydd yn cynnwys Swyddogion Cymdogaethau (SCion) neu Swyddogion Cymunedau a Wardiau:** Mae'r swyddogion hyn yn gyfrifol am anghenion plismona'r cymdogaethau a'r cymunedau dan eu gofal. Dylai'r swyddog hwn hefyd fod yn gyfarwydd â'r ysgol os yw yn ei ardal. Bydd y SC/SCW yn cysylltu'n agos â'r SHCY perthnasol a darparu cysylltiad â'r gymuned gyfan. Darparant ddull o blismona sy'n mynd i'r afael â phroblemau ac anghenion y gymuned a gweithiant yn agos gyda phartneriaid allweddol eraill yn y gymuned honno. Ar ôl ymgynghori â'r SHCY, gellir enwi'r SC i wneud unrhyw ymholiadau pellach am droseddau yn yr ysgol.

- **Swyddogion Ymateb:** Bydd y swyddogion hyn yn ymateb i alwadau brys a rhai cyffredinol pan gânt eu derbyn. Os yw un o'r swyddogion hyn yn ymateb i ddigwyddiad mewn ysgol, gwnânt y lleiaf sydd ei angen, yn dibynnu ar y digwyddiad. Byddant yn cysylltu â'r ysgol a'r SHCY / SC i gytuno ar sut i ddod â'r digwyddiad i ben.

Swyddogion Diogelwch Plant: Mae'r rhain yn swyddogion arbenigol sy'n archwilio materion diogelwch plant fel cam-drin plant. Pan adroddir ar faterion diogelwch plant, bydd yr Heddlu'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o'ch Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BllDPau) fel yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymchwilio'r haeriad. Gall rhan o'r ymchwiliad hwn gynnwys chwilio am wybodaeth gefndir gan wrth yr ysgol ynglŷn â lles y plentyn, neu mewn amgylchiadau arbennig, siarad â'r plentyn yn yr ysgol.

Rolau Arbenigol Eraill yr Heddlu: Yn ogystal â'r rolau uchod, bydd gan bob un o bedwar Heddlu Cymru nifer o adrannau arbenigol a all gysylltu ag ysgol yn dibynnu ar amgylchiadau digwyddiad. Enghraifft dda o hyn fyddai materion fel Trosedd Casineb, a all gael goblygiadau pellgyrhaeddol sy'n cynnwys materion cymhleth. Byddai adrannau arbenigol yr heddlu yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol am y materion hynny a chael cysylltiadau cadarn â chymunedau lleiafrifol ac asiantaethau allweddol eraill.

Anogir ysgolion i siarad yn agored â'u SHCY enwedig a gofyn am gyngor ganddo, ni waeth pa mor ddibwys y gall digwyddiad ymddangos. Mae gan swyddogion ysgolion wybodaeth fanwl am adrannau arbenigol yr heddlu a gallant gynnig cyswllt uniongyrchol â nhw lle bo'r angen.

2. Ymateb yr Heddlu i Ddigwyddiadau mewn Ysgolion

Diffinnir trosedd fel a ganlyn:

Cyflawnir trosedd pan fydd person yn methu gweithredu yn unol â'r gyfraith.

Pan gyflawnir digwyddiad ar dir ysgol mae'n rhaid ystyried difrifoldeb yr achos er mwyn penderfynu os yw'n briodol galw'r Heddlu. Felly gellir ysgytied difrifoldeb digwyddiad drwy bennu atebion i'r cwestiynau canlynol. Os yw'r Pennaeth yn ateb OES / YDYW i unrhyw o'r cwestiynau isod ac ystyrir y digwyddiad i fod yn argyfwng yna ffoniwch **999** er mwyn derbyn cymorth a phresenoldeb brys yr Heddlu.

- A oes unrhyw berygl dybryd?
- A achoswyd anaf difrifol neu a oes posibilrwydd o hynny?
- A oes trosedd yn digwydd neu ar fin digwydd?
- A oes rhywun a ddrwgdybir yno?
- A gaiff tyst ei golli os na fydd yr Heddlu'n cyrraedd yn gyflym?
- A oes potensial amlwg am drosedd arall?
    - A oes gofid eithafol ar ddaifiodd trosedd?

Pryd bynnag y bo modd, bydd swyddogion yr heddlu yn:

- Cyfathrebu â'r Pennaeth neu'r person a enwir.
- Peidio â chofnodi'n ffurfiol drosedd yn yr ysgol a'i hymchwilio oni bai fod yr ysgol, y dioddefydd neu'r rhiant / gwarcheidwad yn gofyn am hynny.
- Arestio plant a phobl ifanc yn yr ysgol mewn amgylchiadau eithafol a phan fydd yn hollol angenrheidiol yn unig.
- Ystyried defnyddio dulliau cyfiawnder adferol a dylid hefyd ystyried Datrysiadau Adferol Ieuenctid (Youth Restorative Disposals – YRD) os yn briodol.
- Hysbysu'r SHCY

Os nad yw'r digwyddiad o natur frys, ond mae angen i'r heddlu fynychu, dylai ysgolion adrodd y digwyddiad i'r Orsaf Heddlu lleol yn y modd arferol.
Mewn achos digwyddiadau cyffredin, neu os gofynnir am gyngor, efallai yr hoffai ysgolion gysylltu â'r SHCY Bydd y SHCY yn cynnig cyngor a threfnu presenoldeb heddwas os bydd angen.

Cydnabyddir bod ysgolion yn gweithredu yn lle rhiant pan fydd disgyblion yn yr ysgol neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu gan yr ysgol, ac efallai y byddant eisiau delio â rhai digwyddiadau'n fewnol, yn hytrach na chynnwys yr Heddlu. Yn yr achosion hyn, gofynnir i'r ysgol hysbysu'r SHCY am y manylion yn ddiweddarach at ddibenion gwybodaeth a allai effeithio ar benderfyniad yr ysgol. Gall peidio ag adrodd trosedd ac felly peidio ag enwi'r tramgwyddwr, os gwyddys neu a ddrwgdybir, brofi wedyn i fod yn wrthgynhyrchiol i'r ysgol a'r gymuned ehangach.

Ni ddylai ysgolion byth boeni am gysylltu â'u SHCY am gyngor pa mor ddibwys bynnag y mae'r digwyddiad – mae hyn yn rhan o'u rôl.

3. Cofnodi ac Ymchwilio Troseddau'n Ffurfiol Mewn Ysgolion

Mae'r ddogfen "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (2005) yn cynnwys fframwaith ar gyfer cynhwysiad, a chanllawiau ar gyfer ysgolion ac AALl. Mae'n disgwyl i ysgolion gynnal lefel uchel o bresenoldeb ac ymddygiad da drwy gynnal disgyblion sydd ag anghenion arbennig er mwyn eu rhwystro rhag datgyweddu o fyd addysg. Mae'n cefnogi'r egwyddor o addysg gynhwysol drwy gofrestru pob plentyn mewn ysgol prif lif oni bai fod cymhellion rhag gwneud hynny. Yn y man cyntaf, mae gan y Pennaeth a staff eraill yr ysgol gyfrifoldeb i ddelio gydag a recordio digwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ar safle ysgol; er y gellir penderfynu'n ddiweddarach bod rhai achosion yn cael eu hystyried fel ymddygiad troseddol. Os mai dyma yw'r penderfyniad byddai'n hwylus rhoi gwybodaeth i'r Heddlu am y digwyddiad. Pan gyfyd "amgylchiadau eithriadol" sy'n arwain i waharddiad parhaol (fel y diffinnir yn: Rhan 1 Cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad "Gwaharddiadau o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion";) byddai'r Heddlu yn disgwyl iddynt fod yn ymwybodol ac yn ymglymedig â'r achos.

Mae gan Benaethiaid a staff eraill ysgolion gyfrifoldeb i ddelio â digwyddiadau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ar safle ysgol a'u cofnodi yn y lle cyntaf, ond gellir penderfynu'n hwyrach bod rhai achosion yn gyfystyr ag ymarweddiad troseddol.

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Swyddfa Gartref wedi datblygu cydgyfarwyddyd i fynd i'r afael â gofidiau ynglŷn â chofnodi troseddau'n ffurfiol gan swyddogion mewn ysgolion. (Er nad oes gan yr Adran Addysg rym yng Nghymru mae'r Swyddfa Gartref yn mynegi safonau cofnodi troseddau ar gyfer Lloegr a Chymru ac felly mae'r cytundeb yn cyfeirio at Gymru.)Mae Is-grŵp Cofnodi Troseddau Cenedlaethol y Swyddfa Gartref wedi cytuno i'r canlynol:

Nid oes gorfodaeth gyfreithiol i ysgolion adrodd troseddau i'r Heddlu. Pan fydd swyddogion heddlu sy'n gweithio mewn ysgolion yn dyst i drosedd neu rywun yn dweud wrthynt am drosedd, a ddigwyddodd mewn ysgol, bydd y canlynol yn berthnasol:

- Ni ddylid cofnodi trosedd ar y dechrau, ond dylid dod â'r digwyddiadau i sylw'r Pennaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol a gwneir penderfyniad ar y cyd.

- Ni fydd y swyddog heddlu'n cofnodi nac ymchwilio'n ffurfiol i unrhyw ddigwyddiad mewn ysgol fel trosedd oni y gofynnir iddo wneud hynny, **neu le mae mor ddifrifol fel bod hynny'n angenrheidiol**. (gweler isod) Os yw hyn yn angenrheidiol, caiff cofnod trosedd ffurfiol ei wneud.

- Bydd yr Heddlu, lle bynnag y bydd yn bosib, yn dilyn dymuniadau'r ysgol a gweithio o fewn polisi'r ysgol.

- Ym mhob achos bydd yr Heddlu yn ceisio cyrhaedd gytundeb y naill wrth y llall â'r ysgol.

- Os yw digwyddiad a gymerodd le yn yr ysgol, yn ystod oriau ysgol, yn cael ei riportio i'r Heddlu gan rieni y tu allan i oriau ysgol, yna dylid delio gyda'r digwyddiad yn unol â phrotocol Trechu Trosedd Mewn Ysgol, a dylid hysbysu'r ysgol o'r canlyniad.

Pryd mae dyletswydd ar yr Heddlu i gofnodi ac ymchwilio'n ffurfiol i ddigwyddiad mewn Ysgol?

Os bydd unrhyw un o'r meini prawf canlynol yn berthnasol, mae'n rhaid i swyddogion gofnodi digwyddiad a'i ymchwilio'n ffurfiol-

- Mae'r Swyddog yn penderfynu ei fod yn ddigwyddiad difrifol fel y diffinnir isod-

  Mae digwyddiad difrifol yn un sydd, ym marn y swyddog, y plentyn, y rhiant neu'r gwarcheidwad neu gynrychiolydd y plentyn, wedi arwain at niwed difrifol neu golled i unrhyw blentyn, neu bwriedir, neu sy'n debygol neu wedi bwgwth arwain at hynny.

Neu

- Mae'r ysgol yn gofyn bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi'n ffurfiol fel 'trosedd',

Neu

- Mae unrhyw ddioddefydd, ei riant neu ei warcheidwad neu gynrychiolydd y plentyn yn gofyn i'r heddlu wneud cofnod trosedd.

Yn ogystal â hyn, mae'r paragraff isod yn berthnasol i ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau

- Gellir ystyried digwyddiad fel "dibwys" a gall yr ysgol ddelio ag e'n fewnol os yw'n cynnwys ychydig bach o Resin Canabis sydd ar gyfer defnydd personol yn unig ac os nad yw'r unigolyn wedi cyflawni trosedd tebyg o'r blaen. (Mae ystyr "dibwys" wedi bod ac yn aros yn 'llac' i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd ac i osgoi deddfu ar gyfer pob atafaeliad posibl).

- Ystyrir meddiant ar sylweddau Dosbarth A eraill fel Ecstasi, Heroin, LSD, Cocên, Cocên Crac, Amffetiminiau ayyb bob amser yn "ddifrifol" a gwneir cofnod troseddol ar eu cyfer.

- Ystyrir digwyddiad yn "ddifrifol" bob amser a chaiff cofnod troseddol ei wneud ar ei gyfer os yw'r sylwedd wedi'i gyflenwi neu y bwriadwyd ei gyflenwi i unrhyw berson arall ai ar gyfer budd ai peidio.

Os yw'r digwyddiad yn gweddu i unrhyw un o'r meini prawf uchod, mae'n **rhaid** i swyddogion wneud adroddiad ar y drosedd hyd yn oed os yw hyn yn mynd yn erbyn dymuniadau'r ysgol.

Pwyntiau i'w hystyried

Isod ceir rhestr o rai ystyriaethau y dylai'r Heddlu a'r Ysgolion eu trafod wrth ystyried a ddylid gwneud cofnod troseddol ar gyfer digwyddiad ai peidio. Mae'n rhaid pwysleisio mai ystyriaethau'n unig yw'r rhain, os yw'r digwyddiad yn gweddu i unrhyw un o'r meini prawf uchod, mae'n rhaid gwneud cofnod troseddol ar ei gyfer a'i ymchwilio -

- Dymuniadau'r dioddefydd (a'r Rhiant/gofalwr lle mae'n briodol)
- Dymuniadau'r ysgol
- Nodweddion gwaethygu er enghraifft bwlio hiliol neu homoffobig.
- Difrifoldeb unrhyw anaf/natur y bygythiad a gafodd y dioddefydd
- Difrifoldeb/gwerth unrhyw niwed a achoswyd (mae'n bosib gosod terfynau ynglŷn â difrifoldeb y niwed ac mae hyn yn oddrychol ar gyfer pob dioddefydd/achwynwr)
- Tebygrwydd digwyddiad arall
- Perthynas flaenorol rhwng y dioddefydd a'r tramgwyddwr
- Effaith bosibl ar y plentyn/person ifanc ar ôl cynnwys yr Heddlu'n ffurfiol
- Effeithiolrwydd gweithrediad yr Heddlu/gweithrediadau cyfreithiol
- Budd y ddau berson yn y dyfodol
- Y neges a roddir i blant eraill
- Argaeledd ffyrdd eraill o weithredu (e.e. agweddau adferol - gyda chaniatâd y dioddefydd (gweler isod) neu ddefnyddio Cytundebau Ymddygiad Derbyniol ayyb).

Dulliau Adferol

Fel mesur rhwystrol mae dulliau adferol yn canolbwyntio ar leihau y nifer o bobl ifanc sydd yn mynd i sytem cyfiawnder troseddau drwy ddal pobl ifanc yn gyfrifol am eu gweithredoedd. Gyda dulliau aferol gellir cynnwys cymuned gyfan yr ysgol a'r rhieni. Mae dulliau adferol mewn ysgol yn ystyried camymddygiad, nid yn unig yn dor-rheolau ysgol ond hefyd yn drosedd yn erbyn pobl a chydberthnasau yn yr ysgol. Mae swyddogion ysgol wedi cael eu hyfforddi ac maent ar gael i hwyluso neu gefnogi'r dull adferol mewn ysgolion, pan fo gofyn.

System Cyfiawnder Ieuenctid

Mae pedwar dewis ar gael i'r Heddlu wrth ddelio'n ffurfiol â throseddwyr ifanc:

1. Dim Gweithrediad Pellach - Dim tystiolaeth neu dystiolaeth annigonol ar gael neu droseddau dibwys iawn.

2. Cerydd - Bwriedir y rhain ar gyfer troseddwyr y tro cyntaf.

3. Rhybudd – Bwriedir ar gyfer troseddwyr yr ail dro.

4. Erlyn - Siarsir / gwysir y troseddwyr â throsedd i ymddangos mewn llys.

4. Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

Mae camddefnyddio cyffuriau rheoledig mewn ysgol yn fater difrifol ac mae'n hanfodol bod yr ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Wrth ymateb i ddigwyddiadau cynghorir ysgolion gan:

- Gylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 17/02 (Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc) (ar hyn o bryd dan sylw)
- Uno Grymoedd- Canllaw i'r heddlu ynglŷn â gweithio ag ysgolion a cholegau.

Mae'r pedwar Heddlu'n cefnogi'n llawn y cyngor a'r canllaw yn y dogfennau hyn. Hefyd mae angen ystyried cynghorion ychwanegol gan yr Heddlu ynglŷn â digwyddiadau camddefnyddio sylweddau. Noda cyngor y dylai ysgolion gadw cysylltiad agos â'r Heddlu lleol er mwyn sicrhau bod polisi lleol cytunedig ar gyfer delio ag ystod y digwyddiadau cyffuriau anghyfreithlon a all godi. Bydd y SHCY yn darparu'r cysylltiad hwnnw.

Mae'n gyfrifoldeb ar y Penaethiaid (yn hytrach na'r Heddlu) i benderfynu a ddylent hysbysu'r AALl am ddigwyddiadau ynghylch cyffuriau anghyfreithlon mewn ysgolion ac a ddylent hysbysu rhieni a llywodraethwyr am ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau ai peidio. Er nad oes gofyn statudol i hysbysu'r Heddlu, disgwyliai'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Heddlu gael eu hysbysu pan ddeuir o hyd i gyffuriau anghyfreithlon ar ddisgybl neu mewn ysgol. Mae pob Heddlu'n gofyn i ysgolion adrodd pob digwyddiad fel hyn yn unol â chanllawiau'r AALl, hyd yn oed pan fydd ysgolion yn bwriadu delio â'r digwyddiad yn fewnol. Caiff yr ysgol gadw unrhyw wybodaeth a roddir i'r Heddlu'n gyfrinachol.

Ysgrifennwyd canllawiau i gynorthwyo'r ysgol a'r heddlu i ffurfio partneriaeth i fynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau'n unol â chyngor cyfredol y Llywodraeth a amlinellir yn 'Joining Forces: Drugs Guidance for police working with schools and colleges', 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru'a 'Camddefnyddio Sylweddau:Pland a Phobl Ifanc Cylch.17/02'
Mae angen dull amlasiantaethol, os yw'r strategaethau i fod yn llwyddiannus, mewn termau rhagweithiol (addysgiadol) yn ogystal ag adweitheddol (mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol).

Mae'r Heddlu'n anelu at ailgyfeirio plant a phobl ifanc i ffwrdd o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae nifer o ddewisiadau, heb orfod erlyn y gellir eu hystyried mewn rhai amgylchiadau. Delir â digwyddiadau trwy ystyried pob ffactor a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhieni a gwarcheidwaid.

Yn ddelfrydol, bydd perthynas weithio brofedig eisoes â'r SHCYion wedi'i seilio ar ymddiriedaeth, lle y gellir hysbysu'r ddwy garfan a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau iawn ar gyfer pawb dan sylw. Caiff dymuniadau'r ysgol a'i pholisïau mewnol eu hystyried a'u parchu bob amser pan benderfynir ar unrhyw ffordd o weithredu yn y dyfodol.

Yr Ymateb Tair Haen

Mae tair prif haen o ymateb y gall yr Heddlu eu gwneud wrth ymateb i

ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau:

1. Casglu a gweinyddu unrhyw sylweddau a ddrwgdybir
2. Ymchwiliad ar y cyd
3. Ymchwiliad ffurfiol gan yr heddlu

1. <u>Casglu a Gweinyddu</u>

Mae ymarfer gorau'n awgrymu dylai'r Heddlu, y mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau clir at y diben hwn, waredu cyffuriau y drwgdybir eu bod yn anghyfreithlon pryd bynnag y bo modd. (Gwelwch atodiad B am ganllawiau trefniadol). Gellir dychwelyd cyffuriau presgripsiwn i'r fferyllfa.

2. <u>Ymchwiliad ar y cyd</u>

Cymeradwyir bod y canlynol yn berthnasol pan fydd sylwedd anghyfreithlon wedi'i gael y gellir ei gysylltu ag unigolyn neu pan fydd yr ysgol yn credu bod rhywun yn meddu ar sylwedd anghyfreithlon:

- Os yw staff wedi derbyn sylwedd, dilynwch y gweithredu ym mhwynt **1** ynglŷn â storio a chasglu gan yr Heddlu ayyb.

- Os yw staff yn drwgdybio bod sylwedd gan unigolyn o hyd a'i fod yn gwrthod cydweithredu, efallai y bydd angen yr Heddlu ar ysgolion i'w cynorthwyo gyda'r archwiliad. Mewn achosion o'r fath, mae angen i'r ysgol ymateb ar frys gan gysylltu â'r swyddfa heddlu lleol. Hysbysir y SCHY perthnasol cyn gynted a bo modd.

Pan gysylltir â'r Heddlu, mae angen penderfynu ar sut i ddelio â'r digwyddiad. Mae'r SHCY yno i gynorthwyo a rhoi cyngor. Pan fydd yr ysgol a'r heddlu'n penderfynu y gellir delio â'r digwyddiad yn fewnol gan yr ysgol, mae angen i'r ddwy garfan ystyried gweithredu mewn ffordd arall a rhoi cefnogaeth i unigolyn e.e. rhaglenni cymorth bugeiliol, dulliau adferol etc.

Pan fydd person ifanc yn mynd trwy'r System Cyfiawnder Ieuenctid yn ffurfiol, bydd yn awtomatig yn cael mynediad i weithredu amlasiantaethol trwy'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Bydd y GTI yn asesu troseddwr ifanc a'r ffactorau risg yn ei fywyd. Yna caiff cynllun gweithredu ei ddyfeisio i'r person ifanc. Dylid rhoi ystyriaeth gan ysgol sy'n dewis delio â digwyddiad yn fewnol, oherwydd y gallant fod yn amddifadu'r person ifanc o gefnogaeth a allai fod yn fuddiol oddi wrth asiantaethau allweddol.

3<u>. Ymchwiliad gan yr Heddlu</u>

Byddai'n well ymgymryd â hyn gyda chydweithrediad yr ysgol. Mae'n debyg mai swyddogion eraill heblaw'r SHCY a wna'r ymchwiliad ffurfiol a bod yn gyfrifol am

hysbysu'r ysgol am wybodaeth berthnasol, fel y cyfeirir ato yn "Gwaharddiadau o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion" (Rhan 5). Fodd bynnag, bydd y SHCY yn aros fel y swyddog cyswllt trwy gydol yr ymchwiliad, gan gynghori a diweddaru'r ysgol am y broses.

Chwilio Disgyblion am Gyffuriau a Nwyddau Wedi'u Dwyn

Ni chaiff staff ysgolion wneud ymchwiliadau personol ar ddisgyblion, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd ond mewn perthynas ag arfau ac os oes

ganddynt amheuaeth resymol bod arf yn cael ei gario. (fodd bynnag cewch ofyn i ddisgyblion wagio'u pocedi, bagiau ayyb). Os yw ymdrechion i berswadio disgybl i ildio sylwedd anghyfreithlon amheus,nwyddau wedi'u dwyn ayyb wedi methu, ac mae'r ysgol yn dymuno gweithredu'n ffurfiol, mae'n rhaid hysbysu'r heddlu i chwilio'n ffurfiol. Ni chaiff ysgolion gadw person heb ei ganiatâd er mwyn ei archwilio am gyffuriau neu nwyddau wedi'u dwyn. Fodd bynnag gall swyddogion yr heddlu ymgymryd ag archwiliadau personol cyfyngedig mewn ysgol neu gadw'r rhai a ddrwgdybir at ddibenion gwneud hynny.

Gall staff ysgolion chwilio eiddo ysgolion, e.e. loceri neu ddesgiau; er y dylid gofyn am ganiatâd cyn gwneud hyn. Mae angen i ysgolion gydbwyso'r tebygrwydd bod trosedd wedi'i gyflawni yn erbyn y risg o dresmasu ar breifatrwydd unigolyn heb reswm cyfiawn.

Nodwch os gwelwch yn dda*. Lle nad oes neb wedi cael ei arestio, caiff swyddogion yr heddlu archwilio plant unigol, lle mae drwgdybiaeth resymol, am gyffuriau a nwyddau wedi'u dwyn. Mae rhaid cael caniatâd y pennaeth neu'r person awdurdodedig i chwilio loceri personol yn yr ysgol. Os gwrthodir caniatâd gall swyddog wneud cais i'r Llys Ynadon am warant chwilio i fynd i mewn i'r ysgol a chwilio.

5.Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006

Chwilio neu Sgrinio Disgyblion am Arfau

Mae'n drosedd i gario arf yn yr ysgol. Bydd Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 (Hydref 2010) yn darparu'r grym, nid y dyletswydd, i benaethiaid neu staff hyddysg awdurdodedig i:

- Chwilio disgyblion a ddrwgdybir o gario arf heb ganiatâd neu ar y llaw arall galw ar yr heddlu. Mae rhaid i ddrwgdybiaeth gael ei chefnogi gan hysbysrwydd neu wybodaeth. Ni ellir chwilio ond ym mhresenoldeb dau aelod o staff o'r un rhyw â'r disgybl. Gall staff gymryd dillad uchaf a chwilio pocedi ond mae rhaid gael yr heddlu i chwilio'n fwy personol.

- Gall ysgolion sgrinio yn barod, heb ddrwgdybiaeth, unrhyw ddisgybl am gyllell neu arf arall i ddiogelu disgyblion fel rhan o'u policiau ymddygiad cyffredinol. Diffinir sgrinio fel bwa cerdded drwyddi neu synhwyrydd metal llaw (bwa neu ffon) h.y. di-gyffwrdd neu cyffwrdd isel (dim taro ysgafn).

YM MHOB ACHOS

Os yw'r pennaeth neu berson awdurdodedig yn ystyried mai YDY yw'r ateb i unryw un o'r cwestiynau isod, **FFONIWCH 999** i gael presenoldeb yr Heddlu ar unwaith:

- Ydy'r staff yn credu fod unrhyw berygl iddynt hwy neu berson arall?

- Ydy dau aelod o'r staff o'r un rhyw (â'r disgybl) heb fod ar gael i chwilio?

- Ydy'r disgybl wedi ffoi er mwyn osgoi'r chwilio?

Bydd canllawiau ar wahân i ysgolion ac awdurdodau lleol ar chwilio a sgrinio disgyblion am arfau sydd ar gael ar safle 'r we Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Defnyddio Grym Rhesymol

Mae defnyddio grym rhesymol yn ganiataol i staff ysgol o dan y gyfraith. Mae'n ddoeth, pan ddrwgdybir disgybl o gario arf ac yn debygol o wrthsefyll yn

gorfforol, i staff yr ysgol alw ar yr Heddlu , yn hytrach na defnyddio grym i barhau ar y chwilio.

Os atafaelir cyllell anghyfreithlon neu arf arall gan ddisgybl mae rhaid rhoi'r arf i'r Heddlu.

Noder: Diffinir arf fel rhywbeth sydd wedi'i wneud neu'i addasu i anafu person, neu unrhywbeth a fwriedir gan y person i anafu rhywun arall. Gall hwn gynnwys cyllell, a ddiffinir fel gwrthrych sydd â llafn sydd yn finiog. Nid yw hwn yn cynnwys cyllell boced blygedig os nad yw'r llafn yn fwy na 3 modfedd neu os na ellir blygu'r llafn yn hawdd bob amser.

Cyhoeddir canllawiau ar wahân i ysgolion ac awdurdodau lleol ar ymyrraeth gorfforol a defnyddio grym rhesymol sydd ar gael ar safle 'r we Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6. Cyfrinachedd

Pan fydd SHCYion yn cyfrannu at wersi mewn ysgolion, bydd buddion dysgu amlwg o bobl ifanc yn rhannu eu profiadau, eu teimladau a'u barnau mewn amgylchedd dysgu diogel.

Ni fydd swyddogion heddlu sy'n gwneud gwersi mewn ysgolion yn annog plant neu bobl ifanc ddadlennu gwybodaeth am droseddau lleol. Fodd bynnag, efallai y bydd digwyddiadau pan fydd plant yn dadlennu rhyw wybodaeth oherwydd natur y pwnc a drafodir.

Pan ddigwydd hyn, rhaid cadw cyfrinachedd pryd bynnag y bo modd o fewn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'n rhaid deall y bydd achosion pan na fydd dewis arall gan y swyddog heddlu oherwydd ei gyfrifoldebau ond gweithredu ymhellach ar wybodaeth a ddadlennir. Yn arbennig pan:

- Ddadlennir tramgwyddau troseddol.

- Bydd rhywun mewn perygl neu mewn risg o niwed personol.

Ym mhob achos deuir â'r fath ddadleniad i sylw'r Pennaeth. Pan fydd digwyddiadau a ddadlennir wedi digwydd o fewn cyffiniau'r ysgol, yn amlwg byddant o fewn y gweithdrefnau a gynhwysir yn y ddogfen hon. Gofynnid barnau'r ysgol, y dioddefydd ayyb cyn penderfynu a ddylid mynd â'r mater ymhellach ai peidio.

Pan fydd achosion sydd wedi eu dadlennu wedi digwydd oddi yn yr ysgol ac mae'n rhaid gweithredu ymhellach, hysbysir y Pennaeth am unrhyw ddadleniad. Bydd unrhyw ymchwiliad pellach gan yr Heddlu'n digwydd fel y bydd yn angenrheidiol. Pan fydd yn briodol, bydd yr ysgol yn cael ei chynnwys ar y cyd yn y broses hon.

(Cynhwysir rhestr o enghreifftiau yn Atodiad C)

Ni fydd Heddluoedd yn rhoi datganiadau i'r wasg ynglŷn ag atafaelu cyffuriau yn ysgolion; ac eithrio mewn achosion lle mae gofid am ddiogelwch y cyhoedd neu pan all ymchwiliad am droseddau difrifol gael ei beryglu. Cyn unrhyw ddatganiad i'r wasg, caiff ymateb ar y cyd i'r cyfryngau ei gytuno, rhwng yr ysgol a'r Heddlu.

Atodiad A-

Digwyddiadau posib sydd angen gweithredu mewn ysgol

Mae'r canlynol yn rhestr enghreifftiol o ddigwyddiadau y bydd efallai angen eu

trafod rhwng yr ysgol a'r SHCY Mewn ymgynghoriad, edrychir ar y ffactorau er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio'r digwyddiad yn ffurfiol ai peidio.

1. Trais gan blentyn neu berson ifanc ar rywun arall

Mae digwyddiadau rhwng plant mewn ysgol yn amrywio o anghytundebau dibwys i ymosodiadau difrifol pan achosir anaf corfforol. Mae dwy garfan ddiamddiffyn yn gallu cymhlethu'r fath ddigwyddiadau.

Rhestrir ffactorau a allai effeithio ar yr angen i gofnodi'r categori hwn o droseddau isod:

- Dymuniadau'r dioddefydd
- Dymuniadau'r ysgol
- Nodweddion gwaethygol, er enghraifft, bwlio hilio neu homoffobig
- Difrifoldeb yr anaf / natur y bygythiad a gafodd y dioddefydd
- Tebygrwydd digwyddiad arall
- Perthynas flaenorol rhwng y dioddefydd a'r troseddwr
- Effaith bosibl ar y plentyn / person ifanc ar ôl cynnwys yr Heddlu'n ffurfiol
- Effeithiolrwydd gweithredu'r Heddlu / gweithrediadau llys
- Lles y ddwy garfan yn y dyfodol
- Y neges a roddir i blant eraill
- Argaeledd ffyrdd eraill o weithredu, fel cyfiawnder adferol gyda chaniatâd y dioddefydd, neu ddefnyddio Cytundebau Ymddygiad Derbyniol.(Dull Y Swyddfa Gartref o ddelio gyda ymddygiad gwrth gymdeithasol.

2. Trais at staff gan blentyn neu berson ifanc

Mae trais at aelodau o staff dysgu neu gefnogi'n gallu amrywio o fygythiadau i ymosodiadau corfforol sy'n gyfystyr ag ymosodiad a tharo. Er bod gan bob ysgol gyfrifoldeb i ofalu am eu plant, mae'n rhaid cydbwyso'u hanghenion lles â hawliau staff fel na ddylent orfod dioddef trais wrth wneud eu dyletswyddau. Effeithir ar y fath ddigwyddiadau gan ffactorau tebyg i'r rheiny a restrir yn yr enghraifft gyntaf.

3. Difrod troseddol o fewn yr ysgol

Ffactorau i'w hystyried yw:

- Lefel / gwerth y difrod a achoswyd (mae'n amhosibl nodi costau penodol ar gyfer lefelau/ gwerth y difrod, oherwydd bod hyn yn oddrychol yn achos pob dioddefydd/achwynwr)
- Dymuniadau'r ysgol
- Digwyddiadau blaenorol o natur debyg rhwng yr un plentyn neu berson ifanc
- Priodoldeb ac effeithiolrwydd cynnwys yr Heddlu
- Effaith cynnwys yr Heddlu ar gynllun gofal cyffredinol y plentyn
- Y neges a roddir i blant eraill

- Argaeledd ffyrdd eraill o weithredu, fel cyfiawnder adferol gyda chaniatâd y dioddefydd, neu ddefnyddio Cytundebau Ymddygiad Derbyniol.m(Dull Y Swyddfa Gartref o ddelio gyda ymddygiad gwrth gymdeithasol.

4. Difrod Troseddol i eiddo staff

Byddai ffactorau i'w hystyried yn debyg i'r rheiny a restrir uchod a byddent yn cynnwys:

- Dymuniadau a lles dioddefydd
- Natur a difrifoldeb yr haeriad
- Dymuniadau'r ysgol
- Angen ymchwiliad ffurfiol (e.e. hawlio yswiriant)
- Argaeledd ffyrdd eraill o weithredu (e.e. dulliau adfer)

5. Lladrad yn yr ysgol

Mae'r mwyafrif o droseddau o ladrad mewn ysgol yn debyg o fod o werth isel. Dylid pwysleisio, felly, bod y gwerth yn fater goddrychol perthnasol i'r dioddefydd.

Rhaid ystyried ffactorau **Pwynt 4** uchod.

6. Anhrefn yn yr ysgol neu yn y cyffiniau
(Yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol neu beryglus ar fysiau ysgol)

Mae maes yr anhrefn yn oddrychol ac mae'n gofyn am benderfyniad gan staff i osgoi cynnwys yr Heddlu'n ddiangen ac ar ôl hynny, cofnodi tresmasau dibwys disgyblaeth a allai fod yn drosedd gofnodadwy.

Mae'r Côd Genedlaethol Ymddygiad Teithio (2009) yn gosod safonau ymddygiad pan yn teithio i'r/o'r ysgol y mae rhaid i ddisgyblion gydymffurfio â nhw.
O fis Ionawr 2010 mae gan ysgolion y ddyletswydd i'w gwneud hi'n ofynnol i'w disgyblion gydymffurfio â'r cod fel rhan o'u polisi ymddygiad a disgyblaeth. . Er mwyn cyflawni hwn mae angen dull partneriaeth. Dylai awdurdodau lleol, ysgolion, cwmniau cludiant a phartneriaid eraill, e.e. yr Heddlu, gysylltu'n agos â'i gilydd i ddatblygu llinellau cyfathrebu i ddelio ag ymddygiad peryglus neu ymddygiad perygl bywyd sydd yn digwydd ar gludiant ysgol.

Y prif ffactorau y dylid eu hystyried yw:

- Natur a difrifoldeb yr anhrefn
- Dymuniadau'r ysgol, y rhieni a'r gwarcheidwaid
- Risg neu fygythiad o berygl i unigolion
- Dymuniadau'r gymuned gyfagos a'r effaith arni
- Argaeledd ffyrdd eraill o weithredu, felcyfiawnder adferol gyda chaniatâd y dioddefydd, neu ddefnyddio Cytundebau Ymddygiad Derbyniol.(Dull Y Swyddfa Gartref o ddelio gyda ymddygiad gwrth gymdeithasol, Cytundebau

Rhiantu, Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol,ayyb.

Dylid pwysleisio y dylai ysgolion a heddlu ddilyn gweithdrefnau lleol wrth ystyried ffyrdd eraill o weithredu fel Cytundebau Ymddygiad Derbyniol, (CYDau) a Chytundebau Rhieni ayyb. Mae'n debyg y bydd angen i ysgolion gysylltu naill ai â'r Awdurdod Lleol neu'r Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar gyfer yr ardal a chael arweiniad ganddynt. Bydd angen i gydlynwyr gadw cofnod o'r fath fesurau i'r Awdurdod Lleol. Hefyd gallai gynnwys unrhyw bartneriaid allweddol perthnasol eraill yn y broses, yn dibynnu ar achosion eraill a allai fod wedi digwydd y tu allan i'r ysgol.

I gael cyfarwyddyd pellach ar y Côd Ymddygiad Teithio Cenedlaethol ewch i safle 'r we Llywodraeth Cynulliad Cymru.

YM MHOB ACHOS

Yn amlwg, mae llawer o fathau eraill o achosion a allai ddigwydd. Wrth benderfynu os yw'r pennaeth am gysylltu â'r Heddlu parthed digwyddiad ar dir ysgol mae'n rhaid ystyried difrifoldeb yr achos. Felly rhaid ysgytied difrifoldeb y digwyddiad drwy bennu'r atebion i'r cwestiynau canlynol. Os yw'r Pennaeth yn ateb OES / YDYW i unrhyw o'r cwestiynau isod ac ystyrir y digwyddiad i fod yn argyfwng yna dylid ffonio 999 i dderbyn cymorth a phresenoldeb brys yr Heddlu.

- A oes unrhyw berygl difrifol a dybryd?
- A achoswyd anaf difrifol neu a oes posibilrwydd o hynny?
- A oes trosedd yn digwydd neu ar fin digwydd?
- A oes rhywun a ddrwgdybir yno?
- A gaiff tyst ei golli os na fydd yr Heddlu'n cyrraedd yn gyflym?
- A oes potensial amlwg am drosedd arall?
- A oes gofid eithafol ar ddioddefydd trosedd?

Os OES - Ffoniwch 999

Os mai NA yw'r ateb i'r cwestiynau uchod, dylid cysylltu â'r SHCY / swyddogion eraill ar y safle neu'r Orsaf Heddlu lleol, am gyngor ac ymateb priodol.

Atodiad B

Gweithdrefnau a awgrymir ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau

Mewn cydweithrediad â'r SHCY mae angen ystyried a yw polisi'r ysgol yn cydymffurfio â'r canlynol er mwyn sicrhau nad oes trosedd o feddiant neu gyflenwi yn digwydd.

CYFFURIAU / ALCOHOL / SYLWEDDAU A GEIR MEWN YSGOLION

Pan ddeuir o hyd i sylwedd amheus yng nghyffiniau'r ysgol, cymeradwya'r Heddlu'r canlynol:

- Os oes rhywun mewn perygl posib neu'n debyg o fod mewn risg o niwed – ffoniwch 999.
- Sicrhewch fod aelod arall o staff yn dyst i'r atafaelu.
- Cadwch e mewn lleoliad addas wrth aros i'r heddlu gyrraedd.
- Cofnodwch bob manylyn am y digwyddiad, y camddefnydd neu'r atafaelu.
- Cysylltwch â'r SHCY ynglŷn â gwaredu a chyngor am weithredu yn y dyfodol.
- Os nad yw'r SHCY / SCY ar gael – dylid cysylltu â'r orsaf leol cyn gynted â phosibl. Eglurwch y sefyllfa a gofynnwch am rif y digwyddiad – Dylid gwneud hyn yn fuan.
- Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd nad yw wedi'i adnabod.

ATHRO'N DRWGDYBIO PLENTYN O FOD DAN DDYLANWAD CYFFURIAU / ALCOHOL / SYLWEDDAU

- Oes hawl gyfreithlon gan y disgybl i gael y cyffur/sylwedd yn ei feddiant?
- A ddrwgdybir bod y cyffur/sylwedd yn anghyfreithlon a/neu'n torri cod disgyblaeth yr ysgol? Os felly, rhaid cysylltu â'r heddlu.
- Gofynnwch am gyngor meddygol os oes angen. Mae'n bwysig gwybod beth yw'r sylwedd os yw triniaeth feddygol yn angenrheidiol.
- Cymerwch feddiant a chadwch yn ddiogel. (Gwelwch yr enghraifft flaenorol)
- Efallai y bydd angen archwiliad. Caniateir i aelodau staff chwilio desgiau neu loceri myfyrwyr, yn perthyn i'r ysgol os amheuir bod cyffuriau anghyfreithlon yno (er y dylid gofyn am ganiatâd yn gyntaf). Ni ddylai staff archwilio myfyriwr yn gorfforol na'u heiddo personol. Fodd bynnag, caiff staff ofyn i'r myfyriwr wagio'i bocedi neu ei fag. Os gwrthodir caniatâd, eglurwch mai'r unig ddewis i staff yw galw'r heddlu i wneud yr archwilio. Gallai unrhyw archwiliad gorfodol gan staff gael ei ystyried fel ymosodiad. Mae pwerau archwilio gan yr Heddlu ynglŷn â phersonau ac eiddo a byddant yn gallu cynorthwyo.
-

MAE GWYBODAETH GAN ATHRO WYBODAETH FOD TROSEDD NEU GYFLENWI ALCOHOL / SIGARÉTS / GLUDION / SYLWEDDAU ANGHYFREITHLON NEU EU GWERTHU YN DIGWYDD YN YR ARDAL LEOL.

Yn ychwanegol at bolisi'r ysgol, cymeradwyir bod …

- Yr ysgol yn hysbysu'r SHCY fel y gellir gweithredu i ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc yng nghyffiniau'r ysgol ac i adnabod patrymau. Yn achos cyffuriau anghyfreithlon, dylid gwneud hyn ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.

MAE DISGYBL YN DADLENNU:

- **ei fod yn defnyddio cyffuriau / alcohol / gludion**
- **bod rhieni / gofalwyr / perthnasau yn camddefnyddio / gwerthu cyffuriau / alcohol / glud**
- **bod ffrindiau'n camddefnyddio / gwerthu / alcohol / gludion**

- Cyfeiriwch at bolisi'r ysgol.
- Cysylltwch â SHCY yr ysgol am ganllawiau, cyngor neu gefnogaeth. Dylid cofio na fydd cyfrinachedd cyfan efallai'n bosib.
- Ar ôl cyrraedd penderfyniad mewn ymgynghoriad â'r SHCY mae'r ffordd o weithredu sydd ar gael i chi wedi'i hamlinellu eisoes.

YM MHOB ACHOS:

Yn amlwg mae llawer o fathau eraill o achosion a allai ddigwydd. Ym mhob achos cofiwch os mai IE yw'r ateb i unrhyw un o'r canlynol-

- A oes unrhyw berygl dybryd?
- A achoswyd anaf difrifol neu a oes posibilrwydd o hynny?
- A yw trosedd yn digwydd neu ar fin digwydd?
- A oes rhywun a ddrwgdybir yno?
- A gaiff tyst ei golli os na fydd yr Heddlu'n cyrraedd yn gyflym?
- A oes potensial amlwg am drosedd arall?
- A oes gofid eithafol ar ddioddefydd trosedd?

Os OES - Ffoniwch 999

Os mai NA yw'r ateb i'r uchod, dylid cysylltu â'r SHCY neu'r Orsaf Heddlu lleol am gyngor ac ymateb priodol.

Atodiad C

Enghreifftiau sy'n cynnwys cyfrinachedd

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o weithdrefnau a ddilynwyd gan SHCY Mae'n bwysig cofio y dylai'r swyddog egluro cytundeb y dosbarth yn glir sy'n cynnwys mater cyfrinachedd ar ddechrau pob gwers.

1. **Yn ystod gwers am ladrad, dadlenna disgybl ei fod yn gwybod fod gan ei rieni deledu wedi'i ddwyn gartref**

- Byddai dyletswydd gan y swyddog i ymchwilio i'r mater ymhellach.

2. **Yn ystod gwers am gamddefnyddio sylweddau, dadlenna llanc ei fod wedi arbrofi sylwedd anghyfreithlon fel canabis.**

- Yn yr amgylchiad hwn, byddai'r swyddog yn parchu cyfrinachedd a byddai'r dadleniad yn ddefnyddiol i ddysgu'r dosbarth

3. **Yn ystod gwers am gamddefnyddio sylweddau, enwa llanc unigolyn sy'n cyflenwi cyffur rheoledig.**

   Byddai dyletswydd gan y swyddog i ymchwilio i'r mater ymhellach.

4. **Yn ystod gwers am ladrad mae sawl plentyn yn dadlennu eu bod wedi dwyn pethau yn y gorffennol**

- Yn ôl pob tebyg, arhosai'r wybodaeth hon yn yr ystafell ddosbarth a byddai trafodaeth felly yn dibynnu ar werth yr eiddo a'r amser ers y digwyddiad. Fodd bynnag, os oedd y dadleniad yn berthnasol i ymchwiliad cyfredol am drosedd gofnodedig, efallai y byddai'n rhaid i'r swyddog weithredu ymhellach.